PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 479 | Mai 2025



**Tlws i Annwen**

t.10



**Cofio Diwedd y Rhyfel**

t.12



**Priodas Tom ac Emma**

t.13

## Llwyddiannau lleol




Martin a Rachel fu'n rhedeg Marathon Llundain – **gweler t.8**



Cwpan Her Parhaol Moc Morgan am berfformiad gorau'r noson yn Sadwrn y Sêr yn cael ei hennill gan Miriam Llwyd Davies am ei pherfformiad yn Unawd o Sioe gerdd, Opera Ysgafn neu Ffilm yn Eisteddfodau Pontrhydfendigaid Pafiliwn Bont. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar gael ei derbyn fel aelod o'r National Youth Theatre ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd yn mynychu gweithdai creadigol ac yn derbyn hyfforddiant gan gyfarwyddwyr ac actorion proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Pob hwyl iddi!




Mona a Nia yn gorffen y She-ultra ym Mhen Llŷn – **gweler t.9**



Bu Twm Williams, Penrhyn-coch, yn hyfforddi gyda carfan academi pêl-droed Gogledd Cymru dan 13 oed. Yma gwelir ef yn ei git Cymru. Pob lwc Twm!

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin**: **Dyddiad cau**: Mehefin 6. **Dyddiad cyhoeddi**: Mehefin 18

**MAI**

11-17 Wythnos Cymorth Cristnogol

16 Nos Wener Tafod Arian Lleuwen Steffan yn Amgueddda Ceredigion am 7.30. £18 o flaen llaw/£20 wrth y drws

16-18 Dyddiau Gwener i Sul Gŵyl Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch

18 Pnawn Sul. Proms yn y cae. Prynhawn o adloniant yn cael ei gynnal ar gae Cymdeithas Goginan.

19 Nos Lun Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Neuadd y Penrhyn yn yr Ystafell Bwyllgor am 7.00

20 Nos Fawrth Dathlu Pen blwydd Deiamwnt y Gymdeithas - 60. Te prynhawn ac Arddangosiad gan Dawn Weaver Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30.

23-26 GwylBorthFest Gweler t.12

25 Dydd Sadwrn Bore Coffi, Te a Chacen yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch rhwng 10-11.30y.b. i ddathlu Gŵyl y Banc.

26-31 Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Parc Margam

**MEHEFIN**

2 Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ail agor.

7 Dydd Sadwrn Parti PATRASA yn y Parc, Penrhyn-coch o 2.30 ymlaen

14 Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Gogledd Ceredigion

17 Nos Fawrth Arddangosiad - Kath Jones a Betsi Davies Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30

18 Dydd Mercher Arad Goch yn cyflwyno 'Sgleino'r lleuad' yng Nghanolfan y Celfyddydau am 10.00 ac 13.00.

18 Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

21 Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i Sir Benfro; tywysydd: Hedd Ladd Lewis. Manyllon gan Ceris Gruffudd

27-29 Nosweithiau Gwener – Sul Hwyl a Blodau o 2.00 tan 4.00
Cynhelir gweithgaredd crefft i'r plant ar y diwrnodau yn Eglwys Dewi Sant Capel Bangor

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ebrill 2025

**£25** (Rhif 190) Meinir Roberts, Cilgwyn, Bow Street
**£15** (Rhif 84) Eirwen Hughes, Pencwm, Bow Street
**£10** (Rhif 281) Alan Wynne Jones, Trem y Ddôl, Bow Street

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost **bethanbebb162@gmail.com**



*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8




YTincer@googlemail.com

## 30 mlynedd yn ôl



**Cymanfa Ganu Annibynwyr a Bedyddwyr Gogledd Ceredigion**

Tro’r Bedyddwyr oedd cynnal y Gymanfa eleni a hynny yn Horeb, Penrhyn-coch dydd Sul, Mai 7 – diwrnod o haf hyfryd. Yr arweinydd gwadd oedd Mair Roberts, Pendeulwyn, ger Caerdydd – arweinydd Cantorion Creigiau a than ei harweinyddiaeth fedrus cawsom ddwy oedfa hwylus a bendithiol. Llywydd cyfarfod y plant yn y pnawn oedd Miss Menna Lloyd Williams, Seion, Aberystwyth a phlant ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont a gymerodd at y rhannau arweiniol ar y thema ‘Gair Duw’. Adroddodd plant y gwahanol eglwysi yr emynau cyn eu canu gyda graen. Traddodwyd y fendith gan y Parchg Andrew Lenny.

Llywyddwyd cyfarfod yr hwyr gan Mrs Carys Rhys Jones, Bethel, Aberystwyth ac aelodau o Salem, Coedgruffydd ddechreuodd yr oedfa trwy ddarllen Gair Duw a gweddïo. Yr organydd yn ystod y dydd oedd Mrs Nia Lewis, Horeb. Arweinyddion y rihyrsals oedd: oedolion: Mr Ken Davies, Soar, Llanbadarn Fawr: rihyrsal y plant: Mrs Nia Lewis. Cynorthwywyd Mrs Lewis wrth yr organ yn y rihyrsals gan Ceris Gruffudd, Horeb. Talwyd y diolchiadau gan lywyddion y dydd, Y Parchg Gareth Evans Rowlands draddododd y Fendith yn yr hwyr.

Roedd chwiorydd Horeb wedi paratoi lluniaeth flasus rhwng y ddwy oedfa a throsglwyddwyd £86 – cyfraniad yr oedolion am y te i UNICEF – cronfa achub y plant i’w roi i blant Rwanda a’r cyn-Iwgoslafia. O’r *Tincer* Mai 1995

**Annwyl Gyfeillion**

Rwy’n cysylltu i roi gwybod i chi am yr astudiaeth pedair gwlad gyntaf o bolisi darlledu yn y DU ddatganoledig, sy’n dechrau ym mis Mai.

Fel prif ymchwilydd ar yr astudiaeth, sydd wedi derbyn Grant Chwilfrydedd o £79,600 oddi wrth Cyngor Cyllido Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau (AHRC), byddaf yn gweithio ynghyd â’r Dr Phil Ramsey o Brifysgol Ulster, Dr Inge Sorensen o Brifysgol Glasgow, a’r Dr Tom Chivers o Goldsmiths, Prifysgol Llundain.

Mae’r cwestiwn o sut mae darlledu yn ymateb i’r dadleuon am gyfansoddiad y DU a’r ddadl ar ddatganoli ac yn eu siapio nhw yn bwnc sy’n dod yn fwy amlwg ar y gorwelion gwleidyddol, academaidd a pholisi.

Bydd y prosiect amserol hwn yn darparu fforwm unigryw a newydd i drafod, cyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar bolisi darlledu heddiw ac yn y dyfodol yn y DU wrth iddi esblygu, gan ganolbwyntio ar ddatganoli pwerau darlledu i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cynnal gweithdy ym mhob un o'r gwledydd, gan ddod ag academyddion, llunwyr polisi, gwleidyddion a darlledwyr ynghyd i ystyried sut y gallai darlledu weithredu yn y Deyrnas Unedig sydd â mwy o ddatganoli. Yn dilyn pob gweithdy, bydd papur briffio yn cael ei baratoi, gan dynnu ynghyd y prif faterion a drafodwyd, ynghyd ag argymhellion polisi.

Ym mis Ebrill 2027, cynhelir cynhadledd ledled y DU, lle bydd adroddiad terfynol y prosiect yn cael ei gyhoeddi.

Yn gyffredinol, ein nod yw bod yr astudiaeth yn darparu sylfaen gref o dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a llunio polisïau wrth symud ymlaen, ac i fod o fudd i lunwyr polisi, ymchwilwyr, rhanddeiliaid ac i ddealltwriaeth ehangach y cyhoedd ar adeg dyngedfennol yn nyfodol gwasanaeth darlledu cyhoeddus y DU.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y prosiect, neu os hoffech leisio barn ynglŷn â’r syniad o ddatganoli polisi darlledu, cysylltwch â mi drwy e-bostio jsm@aber.ac.uk.

Dymuniadau gorau,

**Yr Athro Jamie Medhurst**
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu,
Prifysgol Aberystwyth






# Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Mai*

**18** Cymanfa Ganu – Capel y Morfa 10.00 a 5.30
**25** 2.30 Judith Morris

*Mehefin*

**1** 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
**8** 10.00 Gwyn Elfyn Jones – Seion – Sul yr ofalaeth
**15** 10.30 Watcyn James Bethel (A) yn cydaddoli
**22** 10.30 Enfys Evans Oedfa deuluol
**29** 2.30 Bethel – Judith Morris

**Eglwys St Ioan**

Mae Eglwys Sant Ioan yn falch i gyhoeddi iddynt dderbyn y caniatâd priodol i ddechrau'r gwaith o atgyweirio'r clochdy hindreuliedig a tho'r Eglwys. Wedi blynyddoedd o godi arian, bydd y gwaith atgyweirio ac adfer hir-ddisgwyliedig, yn dechrau yn ystod misoedd yr haf. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i godi arian tuag at unrhyw waith anrhagweladwy y daw yr adeiladwr ar eu traws. Byddwn yn eich diweddaru gyda ffotograffau o'r gwaith sy'n cael ei wneud i ofalu am yr Eglwys brydferth hon ar ein gwefan.

**Ymweliad y gog**

Clywyd y gog yn galw o goed Llwyngronw fore Mawrth, 29 Ebrill.

## POBOL Y CWM

**Cymdeithas y Penrhyn**

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor ar 16eg Ebrill. Estynnodd Angharad Fychan groeso mawr i gynhyrchydd Pobol y Cwm Dafydd Llewelyn Jones gan dynnu sylw eu bod wedi cwrdd blynyddoedd yn ôl yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd cyn i Dafydd ddianc i'r byd ehangach.

Dywedodd fod ei ymweliad yn arbennig o amserol oherwydd bod y rhaglen yn dathlu'i hanner canfed blwyddyn. Dechreuodd Dafydd yn dda drwy ddosbarthu bagiau a rhoddion eraill gyda logo Pobol y Cwm.

Wedyn holodd y gynulleidfa ynglŷn â'n harferion o ran gwylio'r teledu. Awgrymodd y gallai teledu llinol ddod i ben o fewn 10 mlynedd gyda phawb yn gwylio ar lein. Dywedodd hefyd fod rhychwant sylw yn byrhau. Mae'n well gan bobl ifanc fformatiau byr megis "Tik Tok" ac nid yw neb bellach yn ysgrifennu dramâu tair act. Gofynnodd am ein hoff gymeriadau ym Mhobol y Cwm gan dynnu sylw bod cymeriadau mewn operâu sebon yn allweddol ac yn fwy pwysig na'r stori.

Derbynion ni ychydig o awgrymiadau ynglŷn â digwyddiadau i ddod yn y rhaglen. Esboniodd Dafydd fod y cynhyrchwyr yn ymgynghori ag elusennau wrth weithio ar straeon ynglŷn â phroblemau megis dementia a cham-drin merched. Trafododd un stori hirdymor a dywedodd fod y cynhyrchwyr yn caniatáu i'r fath straeon ddatblygu dros gyfnod realistig.

Tynnwyd sylw bod llawer o ddysgwyr yn gwylio Pobol y Cwm. Soniodd am gyflwyno Maya Cooper, cymeriad di-gymraeg wedi'i phortreadu gan actores ddi-gymraeg. Derbyniwyd beirniadaeth hallt ynglŷn â "gormod o Saesneg" ond eglurodd Dafydd fod stori Maya'n ymateb i'r Cyfrifiad a gofnododd leihad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Y bwriad oedd dangos ei siwrnai wrth ddysgu'r iaith a dod i ddeall ei phwysigrwydd.

Diolchodd Angharad i Dafydd am sgwrs ddifyr tu hwnt. Yr oedd pawb yn ddiolchgar iawn i Carwen a Mererid am ddarparu te ar rybudd byr.

**Ennill gwobr**

Llongyfarchiadau i Dr Rhun Emlyn am ennill Gwobr Cymdeithas Hanes y Mortmeriaid. Cyhoeddir y gwaith ar Hywel Cyffin mewn rhifyn o gylchgrawn y Gymdeithas.

**Mynwent Horeb Penrhyn-coch**

Gwahoddir ceisiadau I dendro am waith cynnal a chadw mynwent Capel Horeb. Am ragor o fanylion cysyllter â Richard Davies 07773 958998, Mervyn Hughes 01970 828001 neu Eirian Reynolds 0770 9505741



## Canu yn y Penrhyn

Ar ddydd Sadwrn y Pasg cafwyd prynhawn pleserus yn cyfarch trigolion Penrhyn-coch sy'n gaeth i'w haelwydydd gydag emynau'r Pasg. Galwodd criw bychan Canu yn y Penrhyn ar 8 aelwyd i gyd ac fe gadwodd y glaw bant gan fwyaf.

## Cae chwaraeon newydd!



Mae'r gwaith ar hen gyrtiau tenis Penrhyn-coch bellach wedi'i gwblhau, a'r lle wedi'i addasu i fod yn fan chwarae pob tywydd ar gyfer sawl camp. Flwyddyn neu ddwy yn ôl, fe gymerodd Clwb Pêl Droed Penrhyn-coch y lês ar y safle. Wedyn, bu'n rhaid sicrhau caniatâd cynllunio a mynd i chwilio am grantiau cyn gallu mynd ymlaen â'r gwaith. Llwyddwyd i sicrhau nawdd o dros £200,000 gan gyllidwyr oedd yn cynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Shared Prosperity Funding a Make a Difference Locally (drwy Garej NISA Tŷ Mawr, Penrhyn-coch) tuag at ddatblygu'r safle. Fe wnaed y gwaith gan gwmni South Wales Sports Grounds o Sir Fynwy. Bydd y 'cae' yn addas ar gyfer llu o chwaraeon fel pêl droed, hoci, pêl-rwyd, tenis yn ogystal ag ymarfer corff cyffredinol, a bydd ar gael i'w logi. Bydd manylion ar sut i llogi'r lle ar gael yn fuan.



**Brownies Penrhyn-coch yn falch o'u gwaith plannu blodau y tu allan i Neuadd yr Eglwys.**

**Cyhoeddi cyfrol**
Mae Dr Richard Crowe, Penrhiwnewydd newydd gyhoeddi casgliad o storïau – cyfieithiadau o Ddenmarc. Cyhoeddwyd *Ceir ac anifeilaid* gan Melin Bapur, 2025. Gobeithir cael adolygiad yn rhifyn Mehefin.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Delyth Jones a'r teulu, Rhydyrysgaw, ar farwolaeth mam Delyth o Gynwyl Elfed yn 103 oed.

Hefyd â Bedwyr, y Fenni a Branwen Evans, Caerdydd ar farwolaeth eu tad W Brian Evans, Caerdydd, gynt o Ger-y-llan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Daniel a Ffion Murdoch, Ger-y-llan, ar enedigaeth merch fach, Marged Enlli.

## Canlyniadau Pêl-Droed

**Tim 1af**
*Ebrill*
12 Penrhyn-coch 0 Bae Colwyn 1

Gorffennwyd yn 10fed yn y Gynghrair allan o 16 tîm

**Eilyddion**
*Ebrill*
11 Penparcau 2 Eilyddion Penrhyn-coch 1
15 Tregaron 1 Eilyddion Penrhyn-coch 0
18 Ffostrasol 2 Eilyddion Penrhyn-coch 0
22 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Rhaeadr 1
25 Eilyddion Llanfair-ym-Muallt 0 Eilyddion Penrhyn-coch 1
29 Eilyddion Penrhyn-coch 5 Machynlleth 1

*Mai*
2 Eilyddion Penrhyn-coch 7 St Andrews Llanandras 0
5 Eilyddion Penrhyn-coch 11 St Mary's Gelli 0
Gorffennwyd yn gydradd 9fed yn y Gyngrhair allan o 17 tîm



Diolch i grant Mannau Gwyrdd gafwyd gan CAVO mae Neuadd y Penrhynyn datblygu gwely plannu a gardd ar dir y Neuadd.

# Cylch cinio



**Aelodau Cylch Cinio Aberystwyth yn y trafod y tywydd yn eu cyfarfod mis Mai yn y Clwb Golff ar noson braf o Wanwyn. Yr Athro Geraint Vaughan Cadeirydd y Cylch ac arbenigwr ar yr hinsawdd a fu'n sôn am y ffactorau gwyddonol sy'n effeithio ar ein tywydd o ddydd i ddydd.**

Mae'n anodd meddwl am leoliad mwy dymunol ar noson fwyn o wanwyn na Chlwb Golff Aberystwyth – cyrchfan aelodau'r Cylch Cinio ar gyfer cinio mis Mai eleni. Mae cyfeirio at y tywydd yn gwbwl briodol am mai dyna yn union a gafwyd. Cawsom wybod wrth gyrraedd y noson bod ein siaradwr gwadd wedi gorfod canslo ar y funud olaf oherwydd amgylchiadau anorfod. Dyma'r hunllef a'r her y gall pob Cadeirydd ei wynebu dros y degawdau. Llwyddwyd i lenwi'r bwlch a mawr ddiolch i'r Cadeirydd Yr Athro Geraint Vaughan am roi sgwrs ddifyr i ni ar y tywydd. Mae Geraint yn cael ei gydnabod yn arbenigwr rhyngwladol ar yr hinsawdd.

Mae siarad am y tywydd yn nodwedd o'n sgwrsio naturiol ni bob dydd. Mae natur cyfnewidiol y tywydd yn effeithio ac yn aml yn rheoli ein bywydau pob dydd ac mae wedi gwneud hynny dros y canrifoedd. I ni, y glaw yw gofid pennaf y tywydd yn amlach na pheidio. Soniwyd am sawl un o'r hen goelion megis gwartheg yn gorwedd neu weld Ynys Enlli a Phen Llŷn o brom Aber yn glir yn arwyddion o law, medde nhw. Er mor ddifyr a chofiafwy yw'r straeon a'r chwedloniaeth, y neges yn glir oedd mai rhesymau gwyddonol sydd wrth wraidd y tywydd. Lleoliad daearyddol, y Jet Stream, y môr a'r mynydd, y cymylau a'r gwynt a'r lleuad a newid hinsawdd yw'r allwedd i ni gael gwell dealltwriaeth o'n tywydd.

Wrth ddiolch i'r Cadeirydd am lenwi'r bwlch mor effeithiol dywedodd Sion Griffiths, Trawscoed iddo glywed gwraig o Nefyn yn dweud: os oedd modd gweld Ynys Enlli yn glir roedd hi'n mynd i fwrw glaw ac os nad oedd modd gweld Enlli yna roedd hi yn bwrw glaw! Enillwyd y raffl gan Eddie Jenkins, Llandre.

Clywyd bod un o'n haelodau Kevin Holland wedi llwyddo i redeg Marathon Llundain eleni i godi arian i gefnogi Tenovus a chytunwyd yn unfrydol i gyfrannu £100 o gyllid y Cylch i gefnogi'r elusen canser. Cadarnnhaodd yr Ysgrifennydd Huw Williams y bydd ein cyfarfod mis Gorffennaf yn ymweld â gwesty enwog Y Talbot Tregaron.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Ysgwiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758


R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

YTincer@googlemail.com

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Y mis hwn, ry'n ni'n troi ein golygon i gyffiniau Llyn Pen Rhaeadr a Phistyll y Llyn yng ngogledd-ddwyrain Ceredigion, ar y ffin â sir Drefaldwyn. Mewn gwirionedd, carwn fynd â chi ryw hanner milltir yn groes i'r ffin honno i le o'r enw *Hafodwnnog* (SN762937) yn Uwchygarreg.





**Map Arolwg Ordnans 1:25,000 Colour Raster (2025)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Dyma un o'r esiamplau prin o'r elfen *hafod* yn enwau lleoedd yr ardal, yn dynodi trigfan yn yr ucheldir y byddid yn symud iddi gyda'r anifeiliaid ar gyfer misoedd yr haf fel rhan o'r gyfundrefn hafota a hendrefa. Rhai o'r enghreifftiau eraill yw *Bwlch Hafod y Gog* rhwng dwy gangen cronfa Nant-y-moch; *Henhafod* rhwng Nant-y-moch a Phonterwyd; a *Hafodau*, Goginan.

Daw'r cyfeiriad cynharaf at yr enw, *Hafod wynnoge*, o ewyllys Morgan Vaughan, Machynlleth yn 1633.[1] Dengys un o weithredoedd Cwrt-mawr i *Havod Wynnog* gael ei werthu i stad Gogerddan ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif.[2] Does ryfedd felly bod cyfeiriadau niferus at y lle ymhlith papurau'r stad honno yn y cyfnod dilynol, er enghraifft sonnir am *Havodwnog* yng nghofnodion rhent 1787-8.[3] *Hafodwnog* yw ffurf Rhestr Map Degwm Machynlleth yn 1844, a *Hafod-Wnnog* a geir ar argraffiad cyntaf map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1887.[4]

Gallwn fod yn eithaf ffyddiog, felly, mai *gwynnog*, neu'r amrywiad *gwnnog*, yw ail elfen yr enw. Cyfuniad ydyw o *gwynt* a'r terfyniad ansoddeiriol *-og*, gyda'r *-nt-* wedi troi'n *-nn-* fel yn *diwydiant* > *diwydiannol*. Ei ystyr yw 'gwyntog, ystormus', felly rhaid bod *Hafodwnnog* yn lle noeth ac agored i'r gwynt.

Aeth Stad Gogerddan ati i fapio'i thiroedd yng Ngheredigion a sir Drefaldwyn yn 1788, ac fe welwch o'r map a luniwyd o *Hafodwnnog* bryd hynny bod annedd arall yn rhannu'r un enw yn ffinio tua'r gorllewin, sef *Hafodwnnog Fach*:





**Thomas Lewis, Maps of the Gogerthan Estate in the several counties of Cardigan and Montgomery the property of Mrs. Margt. Pryse cyfrol 2, t.34. http://hdl.handle.net/10107/1445837**
**Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Digwydd yr enw *Hafodwnnog* am dri lle nodedig o agored a gwyntog yng Ngheredigion: un yn ardal Lledrod, un yng nghyffiniau Nebo, ac un arall ger Ffostrasol.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru a Geiriadur Prifysgol Cymru https://www.geiriadur.ac.uk/

1. Ewyllys SA/1633/112.
2. Cwrt-mawr 1096, 21 Rhagfyr 1711.
3. Rental of the Gogerthan Estate in the Counties of Cardigan and Montgomery for the year ending at May 1788, RA 243(ii) t.15.
4. Cardiganshire II SE.



## Llandre

**Merched y Wawr Genau'r-glyn**
Yn wahanol i'r arfer roedd cyfarfod Merched y Wawr Genau'r-glyn am fis Ebrill wedi ei drefnu ar gyfer bore Llun, a hynny er mwyn i ni ymweld á Fferm Fêl Wainwrights, ger Maesnewydd. (Yn anffodus methodd nifer o'r aelodau ddod.) Er hynny cawsom groeso cynnes iawn gan y swyddogion fu'n siarad á ni, a bu clywed beth sy'n digwydd yno a beth sydd wedi bod yn digwydd yno – ehangder y gwaith, arbenigedd y cwmni, rhyfeddod y gwenyn, amrywiaeth y mêl - yn dipyn o agoriad llygad i ni. Yn y llun rydyn ni i gyd yn gwisgo gorchudd am ein pennau i sicrhau hylendid y ffatri.

Rhai aelodau o gangen Merched y Wawr Genau'r-glyn ar ymweliad hynod ddiddorol yn ddiweddar â fferm fél Wainwrights.



# Sain, cerdd a chân

Bu nifer o rai sy'n dod o'r ardal neu a chysylltiad a'r ardal yn brysur yn creu cerddoriaeth dros yr wythnosau diwethaf.




**Merched PlasTaf**
Criw o ferched oedd yn ddisgyblion yn Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd Glantaf a Plas Mawr a Bro Edern dan arweiniad Caryl Ebenezer. Lansiwyd CD newydd ddiwedd Ebrill gan Sain. Dechreuodd y parti yn 2010 fel rhan o Adran yr Urdd, Salem, Caerdydd gan ddatblygu i'w ffurf bresennol ar hyd y blynyddoedd. Mae aelodau yn newid yn gyson – fel mae y criw cyntaf yn gorffen, ymuna cantorion newydd a barnwyd mai nawr oedd yr amser gorau i gynhyrchu y CD. Buont yn ddigon ffodus i fynd ar daith i Rufain ychydig nol gan gynnal cyngerdd mewn eglwys hynafol. Gwelwyd y Pab Francis yn pasio yn ei Popemobile a chanwyd Calon lan iddo! Mae eu rhaglen yn cynnwys gweithiau gan Richard Vaughan, Euros Rhys Evans, Robat Arwyn yn ogystal a eitemau gwerinol. Recordiwyd y CD yn Eglwys St Augustin, penarth – gellwch eu dilyn ar Facebook ac Instagram ac mae y CD – pris £12.98 ar gael yn Inc Aberystwyth neu drwy gysylltu a merchedplastaf@gmail.com.

**Dathlu'r 60**
Ddechrau Mai roedd un arall o gyn aelodau ysgol Rhydypennau yn brysur yng Nghaerdydd yn dathlu 60 mlynedd ers sefydlu Cantorion Ardwyn Caerdydd. Bu David Leggett yn Gyfarwyddwr Cerddorol y Côr ers 20 mlynedd. Yn ddiweddar bu'r Côr ar ymweliad â Gwlad Belg.Yn y llun gwelir David ar ol arwain y cyngerdd dathlu – yn y lun gwelir ei deulu – ei wraig Ruth, y plant Gwenan, Rhodri ac Osian, Sara chwaer Ruth a'i mab hynaf Wilf .





Lluniau: Jake Morley.




Newydd ei gyhoeddi mae'r gyfrol Afonydd : poems for Welsh rivers: cerddi olygwyd gan Sian Northey a Ness Owen. 50 o gerddi a'u cyfieithiadau mewn blodeugerdd gwbl ddwyeithog Cymraeg/ Saesneg i ganmol afonydd Cymru.
Arachne Press Ltd, 2025. 110t. £12.00. Ceir cerdd i'r afon Rheidol gan Hywel Griffiths.

**Ar y radio**
Gwyneth Keyworth fydd gwestai Shelley a Rhydian dydd Sadwrn ar 17 Mai rhwng 11.00 a 14.00.

## Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn:**

*Mai*

**18** 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa.Arweinydd; Alwyn Evans

**25** 10.00 Beti Griffiths

*Mehefin*

**1** I'w drefnu

**8** I'w drefnu

**15** 10.00 Mr. Raymond Davies

**22** I'w drefnu

**29** 2.00 Dr. Rhidian Griffiths

**Hwyl a Blodau**

Mehefin 27-29, Nosweithiau Gwener – Sul o 2.00 tan 4.00. Cynhelir gweithgaredd crefft i'r plant ar y diwrnodau yn Eglwys Dewi Sant Capel Bangor.





**Merched y Wawr Melindwr**

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yng Ngwesty'r Pedwar Tymor Aberystwyth. Croesawyd pawb yn gynnes gan Lynne Davies a cofiodd yn gynnes iawn at ein hysgrifennydd Rita Jones sydd ddim yn teimlo yn rhy dda ar hyn o bryd. Etholwyd swyddogion

Llywydd: Nia Davies

Is lywydd: Lis Collison

Ysgrifenyddion: Sue Jones Davies a Jan Armstrong

Trysorydd: Aerona Armitage

Is Drysorydd: Eirwen Mcnulty

Gohebydd y wasg: Beti Daniel

Dosbarthu *y Wawr*: Heulwen Lewis

Cafwyd pryd o fwyd blasus i orffen y noson ac edrychwn ymlaen i drip blynyddol i'r Ardd Fotaneg ym mis Mehefin.






Martin a Rachel

## Her a hanner

Llongyfarchiadau enfawr i ddau o drigolion ardal *Y Tincer* ar gwblhau marathon Llundain ddechrau'r mis. Ymhlith y 56,640 o redwyr a groesodd y llinell derfyn yr oedd Martin Tranter (o Gapel Bangor) a Rachel Richards (o Benrhyn-coch). Bu'r ddau yn paratoi at yr her am fisoedd lawer, gan godi symiau anrhydeddus iawn i sawl elusen, gan gynnwys Mencap. Bydd rhai o'r darllenwyr yn cofio iddyn nhw gynnal nifer o ddigwyddiadau ym Mhenrhyn-coch, gan gynnwys stondin gacennau a sesiwn golchi ceir yn Garej Tymawr cyn y Pasg. Da iawn chi, Martin a Rachel – ymlaen at yr her nesaf!

YTincer@googlemail.com

## Trefeurig

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Lisa Angharad a Rhys yng Nghaerdydd ar enedigaeth mab – Barti Ned Gwynfor ar 22 Ebrill – brawd bach i Wini a Besi.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Mai Hughes, Trawsnant, ar farwolaeth cefnder – Geraint Hughes o'r Cilgwyn, Llanwrin.

## Goginan

**"She-Ultra"**

Ar y 12fed o Ebrill cynhaliwyd y "She Ultra" ym Mhen Llŷn. Taith 30 milltir o Abersoch i Bwllheli yn cefnogi elusenau cancr marched. Mi wnaeth 1,800 o ferched gymeryd rhan naill yn cerdded neu'n rhedeg. Yn eu plith roedd tair â chysylltiad â Goginan, sef Lauren Davies, merch Nigel, rheolwr y Druid, a ffrindiau agos o Gaerdydd, Nia Elin a Mona Jones. Roedd Nia yn cerdded er cof am ei mam, Iona Jones, Tir na Nog, Cwmbrwyno gynt a hefyd ei ffrind Betsan Wyn Morris a gollwyd y llynedd yn llawer rhy fuan. Er cof am ei chwaer annwyl Menna, Tŷ Melindwr, oedd Mona yn cerdded. Roedd y ddwy chwaer wedi bwriadu cyd-gerdded y "She-Ultra" eleni, ond nid felly y bu ar ôl colli Menna haf diwethaf. Ac yn rhyfedd o beth roedd y daith yn pasio heibio man geni Menna ym Madryn, lle hudolus yng nghanol Pen Llŷn. Llongyfarchiadau i'r dair am gwblhau'r her arwrol.



Mona a Nia gyda Dafydd Fryer

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 26 Ebrill**

Mynediad 1171

Everything was easy to sell with a good number presented with many buyers in Arwerthiant da heddiw eto gyda phopeth yn gwerthu yn dda. Roedd llai o'r defaid trymion ar gael ac roedd yna lawer o hesbinod ysgafn ar gael Roedd y prisiau fel a ganlyn:

Mamogiaid cwlio (579) Cyf. £108.90, mwy £228 gan Evans, Tycefn, Llangwyryfon, a llawer arall dros £200.

Ŵyn blwydd (383)Cyf £91.80 (cyflwynwyd llawer o ŵyn blwydd ysgafn). Mwy £154 gan Innovis, Peithyll.

Hyrddod (39) Cyf £138.50. Mwy £214 gan A Evans, Penllyn, Tywyn.

Cyplau defaid ac ŵyn (189) Cyf £94 y bywyd. Mwy £330 (£110 y bywyd) gan M Jones, Penyberth Isaf, Penrhyn-coch.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Sara Mitchell, Maes y Dderwen, ar farwolaeth ei mam-gu ym Maenclochog ganol Ebrill.

Estynnwn ein cydymdeimlad gydag Arthur Hughes, Lluest Fach, ar farwolaeth cefnder – Geraint Hughes o'r Cilgwyn, Llanwrin.

**Arielau**

Daeth ateb gan Brifysgol Aberystwyth am y defnydd y bwriedir wneud o'r cae arielau – mae'n nhw'n dweud eu bod nhw yn dal i ystyried beth fydd ei ddefnydd wedi'r tenantiaid presennol adael a dychwelyd y cae i'w gyflwr gwreiddiol.



## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor nos Iau Ebrill 17eg. Roedd 5 cynghorydd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir a dau gynghorydd.

Mae Jon Armitage a Hywel Jones wedi ymuno â'r Cyngor Cymuned. Croeso i'r ddau. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mawrth 2025 fel rhai cywir.

Rhoddodd y clerc adroddiad o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2025.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd trafodaeth ar greu Cynllun Bioamrywiaeth ac asedau y Cyngor.

Mae y cynghorwyr wedi cytuno i greu arddangosfa o flodau ar gyfer Gŵyl Flodau Eglwys Dewi Sant ym Mehefin.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar Mai 15eg 2025. Croeso cynnes i bawb.

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888



## Bow Street

**Suliau'r Garn**
*Mai*
18 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa 10.00 a 5.30
25 Delyth Morgans Phillips

*Mehefin*
1 Noddfa Richard Lewis
8 Ifan Mason Davies
15 I'w drefnu
22 Peter Thomas
29 Wyn Morris

**Noddfa**
*Mai*
18 Cymanfa Ganu – Capel y Morfa 10.00 a 5.30
25 Richard Lewis

*Mehefin*
1 Richard Lloyd Jones. Y Garn yn Uno.
8 Richard Lewis. Cymundeb.
15 Cyfeillach
22 Richard Lewis
29 Karen Owen

**Capel y Garn mis Ebrill**
Daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd yn ôl ei harfer brynhawn Mercher cyntaf y mis.

Dechreuwyd gwasanaethau'r Sul drwy gyd-addoli á chynulleidfa Noddfa ar y Sul cyntaf, dan arweiniad y Parchg Richard Lewis. Y Sul canlynol croesawyd Y Parchg Meirion Morris i'n harwain. Dros Ŵyl y Pasg cynhaliwyd dwy oedfa i'r Ofalaeth yn y Garn, dan arweiniad ein cyn-weinidog, y Parchg Watcyn James, gydag aelodau o'r gwahanol eglwysi yn cymryd rhan. Ar fore Gwener y Groglith "O Fethlehem i'r Groes" oedd thema'r myfyrdodau a'r darlleniadau, ac ar fore Sul y Pasg cawsom ddilyn "Y Ffordd i Emaus" cyn y gwasanaeth cymun. Gwnaethpwyd casgliad tuag at leddfu'r angen yn dilyn y daeargryn ym Myanmar.

Cafwyd cyfle i gyd-ddathlu yng nghwmni'n gilydd yn y festri a mwynhau paned a chacennau tymhorol ar ôl y ddau wasanaeth. Y Parchg Athro John Tudno Williams fu'n arwain ein haddoliad fore Sul olaf y mis.



**Cydymdeimlo**
Trist yw cofnodi bod Mr Tom Corfield, 20 Maes Ceiro, wedi marw mor fuan ar ôl dathlu ei ben blwydd yn 90 ac ymsefydlu yn y cartref gofal yn Llannon. Cydymdeimlir yn ddiffuant efo Mag a'r teulu yn eu profedigaeth.

**Llongyfarch**
Llongyfarchiadau mawr i Arwel a Lila, Llys Hedd, ar ddod yn Dad-cu a Mam-gu unwaith eto wrth i Heledd a Neil groesawu bachgen bach i'r teulu draw yng Ngogledd Iwerddon.

Yr ydym hefyd yn cyflwyno'r un neges i Geraint a Janet Evans, Bryncastell, wrth i Rhodri a Kiera groesawu Alfie George i'r teulu ar Fai 2il fel brawd bach i Henry.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Yn ein cyfarfod mis Ebrill cawsom gwmni Angharad Davies o Bonterwyd gyda'r thema "Halibalwns" Pwy feddylie y gellid gwneud sut gymaint efo Balwns! Mae'n gwneud eitemau i ddathlu gwahanol achlysuron fel priodasau, pen blwyddi ag ati. Gwnaeth ddwy eitem hollol wahanol ini ar y noson. "Ffantastig" yw'r unig air i'w ddisgrifio.

## Ennill Tlws
Llongyfarchiadau i Anwen Pierce am ennill Tlws y Llenor yn Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth.

**Cyngor Cymuned Tirymynach**
Cyfarfod 29 Ebrill:
Trefnwyd ymchwiliad diogelwch (RoSPA) â pharc Bryncastell, o ran y ffensys.

Cadarnhawyd bod nawdd i'w roi i'r canlynol: Sioe Rhydypennau, Neuadd Rhydypennau, Ysgol Rhydypennau, Y Tincer, Pwyllgor Henoed y pentref, Ambiwlans Awyr Cymru, Cylch Meithrin Rhydypennau, Ffermwyr Ifanc Ceredigion.

Mae nifer o'r tyllau yn ffyrdd yr ardal (*potholes*) wedi'u llenwi.bl

Mae baw ci dal yn broblem – gosodwyd mwy o arwyddion.

Trefnwyd bod trydanwr yn dod i ailosod peiriant di-ffib y neuadd.

Cyfarfod nesaf: 4 Mehefin, 6.30pm, Neuadd Rhydypennau. Croeso cynnes i bobl yr ardal.

## Capel Noddfa

"Molwch ef â sain utgorn, molwch ef â thannau a thelyn.
Molwch ef â thympan a dawns, molwch ef â llinynnau a fliwt.
Molwch ef â swn symbalau, molwch ef â symbalau uchel."

Hywel oedd yn gyfrifol am Gyfeillach Ebrill a dewisodd dwy thema ar gyfer ei fyfyrdod. Y thema gyntaf oedd y cyfeiriadau sydd at offerynnau cerdd yn yr ysgrythur a'r ail thema oedd y cysylltiad rhwng y gloch â chrefydd. Naw offeryn a gyfeirir atyn nhw yn y Beibl, neu ddeg os cynhwysir y llais ac fel yr eglurodd Hywel mae'r llais, a llafar ganu yn benodol, yn dal i fod yn bwysig mewn nifer o grefyddau. Gan nad oedd yr organ wedi ei dyfeisio yng nghyfnod y Beibl nid oes yr un cyfeiriad ati, ond yn ddiweddarach, er yr ystyriwyd hi'n offeryn y diafol ar y cychwyn, daeth yn hanfodol wrth gwrs fel cyfeiliant i ganu cynulleidfaol. Cyfeiriodd Hywel hefyd at bwysigrwydd offerynnau taro mewn defodau a phrosesiwn a chyfeiriodd at yr hanes am sain utgyrn yn achosi i furiau Jericho ddymchwel. "...ac wedi i'r fyddin glywed sain yr utgyrn, a bloeddio a bloedd uchel, syrthiodd y mur i lawr ac aeth y fyddin i fyny am y ddinas"

Dim ond un cyfeiriad sydd at gloch yn y Beibl a hynny yn llyfr Exodus ond fel yr eglurodd Hywel daeth y gloch yn rhan o'n diwylliant a'n iaith. Er enghraifft, dynoda'r gloch amser:



'Faint o'r gloch yw hi?' Sonir am gofio rhywbeth: 'Mae hyn yn canu cloch.' A sonir am rhywun sy'n uchel ei gloch'. Ac ar un adeg roedd pobl yn credu bod canu cloch yn hel ysbrydion drwg i ffwrdd ac mae cyfeiriad at gloch mynachty Llandudoch yn Buchedd Dewi.

Ymwrthod â'r gloch wnaeth anghydffurfiaeth ond mae'r gloch yn dal i alw'r ffyddloniaid eglwysig a Phabyddol at addoliad a defnyddir caniad y gloch i ddynodi achlysuron hapus a thrist.

Gorffennodd Hywel ei fyfyrdod drwy ddarllen ysgrif Gwilym Meredydd Jones sy'n sôn am ei atgofion o gloch Eglwys Llawr y Betws yn Nyffryn Clwyd pan yn blentyn.



**Llongyfarchiadau mawr i Miri, Megan, Nel, Caoimhe a Llio am berffomio mor arbennig fel rhan o Ŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd Rhydypennau. Cafwyd perffomiad o'r ddrama 'Noson olaf o ryddid' (Sion Pennant) gan griw Doli Micstiyrs a hefyd berffomiadau o fonologau ac unawdau Sioeau Cerdd gan y merched. Perfformiwyd hefyd 'Ymlaen' (Rhiannon Parry) gan Gwmni Drama'r Plant Afradlon (Y Groeslon).**


inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**

Cered: Menter Iaith Ceredigion

**AR GERED: CWM RHEIDOL**

Taith gerdded Gymraeg 9 cilomedr o amgylch y gronfa ddŵr. Ymunwch â ni i ddarganfod prydferthwch, hanes a natur y cwm.Croeso i siaradwyr Cymraeg gan gynnwys dysgwyr o bob lefel.



Llun: Iestyn Hughes

**Y Ganolfan Ymwelwyr – 10.30yb, Dydd Sadwrn Mai 31**

I gofrestru: **steffan.rees@ceredigion.gov.uk**

DIGIDA

**Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.**
**Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.**
**Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.**

**Gwefannau**
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics

**Cyfryngau Cymdeithasol**
Facebook, Instagram, TikTok

**Marchnata**
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.

Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.

ARFOR


## Sgleinio'r Lleuad

Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Sgleinio'r Lleuad' – Cynhyrchiad Theatr Deuluol Hudolus yn Teithio Ledled Cymru yn Nhymor yr Haf 2025, gyda Pherfformiadau Arbennig yng Ngheredigion



**Ioan Gwyn**



**Mari Fflur**



**Caryl Lewis**

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn falch o gyflwyno'r addasiad llwyfan o Sgleinio'r Lleuad, sef y llyfr poblogaidd gan Caryl Lewis a Valériane Leblond – awdures ac artist sy'n lleol i Geredigion. Bydd y cynhyrchiad newydd hwn yn teithio theatrau ledled Cymru rhwng Mai a Gorffennaf 2025, gan gynnig profiad theatr hudolus i blant 3–8 oed a'u teuluoedd, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg newydd. Bydd perfformiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth (18 Mehefin) – gan wneud y daith theatrig hon yn un agos at gartref llawer o'r criw creadigol sydd ynghlwm.

Mae'r cast ei hun yn cynnwys dau berfformiwr o Geredigion – Mari Fflur (fagwyd ym Mhenrhyn-coch) ac Ioan Gwyn (Tal-y-bont). Dywedodd Mari:

"Dwi wrth fy modd efo gwaith Caryl Lewis ac fe fydd perfformio mewn addasiad o'i gwaith yn fraint. Dwi'n edrych ymlaen at ddod â'r cymeriadau oddi ar y dudalen gyda thîm arbennig Arad Goch. Efallai mai dyma fydd profiad cyntaf rhai aelodau o'r gynulleidfa o ddod i'r theatr, ac mae hynny'n sbeshal. Dwi methu aros i rannu'r stori gyda phlant Cymru."

Mae'r stori'n dilyn Byrti a Bwbw, dau gymeriad sy'n sgleinio'r lleuad bob dydd – tan fod Pwnîc yn dweud wrthynt am roi'r gorau iddi, ac mae'r byd yn mynd yn dywyll... nes bod rhywbeth hudolus yn digwydd. Mae'r stori wedi'i haddasu ar gyfer y llwyfan gan Caryl Lewis ei hun. Dywedodd Caryl:

"Dwi wedi cael modd i fyw wrth addasu Sgleinio'r Lleuad ar gyfer y llwyfan. Mae hi wedi bod yn freuddwyd i ddod â Byrti a Bwbw i'r theatr, a dwi wrth fy modd gwneud hynny yng nghwmni Arad Goch..."

Bydd y cynhyrchiad yn cynnwys caneuon gwreiddiol gan y cerddor poblogaidd Mei Gwynedd, ac fe'i cyfarwyddir gan Ffion Wyn Bowen, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch.

Bydd y cynhyrchiad yn cael ei pherfformio'n Gymraeg – cyfle gwych i blant a theuluoedd, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg newydd, fwynhau theatr Gymraeg o'r radd flaenaf.

## Y Borth

**Gŵyl Y Borth**
Nodyn i atgoffa am gystadlaethau'r Wyl. Bydd gwobr ariannol ar gyfer pob cystadleuaeth.

Ffilmiau ieuenctid -dyddiad cau dydd Sadwrn Mai 17 eg Dylid anfon y ffilm dros ebost i elinhefin@gmail.com

Gwobr Celf 'MÔR ART SEA CELF' Dyddiad cau Gwener 16eg dylid cyflwyno'r gwaith yn 2 London Place SY24 5JF. *Am fanylion yr ŵyl gweler tudalen Facebook Borthfest.*




## Creadigaethau'r Croswyr Cudd

Ers rhyw flwyddyn bellach, mae blychau casglu coch y Post Brenhinol yn Y Borth wedi bod yn fwy lliwgar na'r arfer. Bob rhyw ychydig fisoedd, gan ddilyn thema tymhorol, mae creadigaeth crosio newydd yn ymddangos ar ben y blychau ar hyd y pentref.

Does neb yn hollol sicr pwy yw'r croswyr cudd sydd wrthi'n brysur yn harddu'r blychau ond fe lwyddodd Y Tincer dryw ddirgel ffyrdd i gysylltu ag un ohonyn. "Ry'n ni jyst yn hoffi gwneud i bobl wenu a lledu ychydig o liw a llawenydd o gwmpas y pentref," meddai'r unigolyn di-enw.

Mae'r casgliad o luniau a welir yma'n adlewyrchu'r ystod o ddigwyddiadau arbennig sy'n ysbrydoli'r croswyr ac edrychwn ymlaen at weld sut y caiff y blychau eu haddurno yn y misoedd i ddod, gan gynnwys Gŵyl Borth Ffest.








**Clwb yr Henoed**
Y Parchedig Lynn Rees yw gwestai arbennig y clwb ar ddydd Iau 22 Mai pan fydd yn siarad am ei daith i China'r llynedd. Mae croeso cynnes aelodau hen a newydd yn y sesiwn sy'n cael ei chynnal rhwng 2 a 4yp yn y Neuadd Goffa Gymunedol.



**Cofio Diwedd y Rhyfel**
Cynhaliwyd te parti yn yr Hwb Cymunedol ar 9 Mai 25 i rannu atgofion am ddiwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop yn 1945. Daeth Joan â llythyr a dderbyniodd hi a phob plentyn ysgol arall gan y Brenin Siôr VI yn nodi diwedd y rhyfel ac yn galw am undod a heddwch.

**Grŵp Dementia Gyfeillgar**
Wyddoch chi bod grŵp arbennig ar gyfer pobl â dementia yn cwrdd yn Hwb Cymunedol Y Borth bob bore dydd Llun rhwng 10 a hanner dydd? Caiff y grŵp ei arwain gan yr artist Martine Ormerod sy'n trefnu llu o weithgareddau creadigol a lles. Mae Martine wedi dysgu siarad Cymraeg ac mae'n cydweithio â gwirfoddolwraig sydd hefyd yn siarad Cymraeg, ac a fu'n feddyg yn arbenigo ym maes colli'r cof. Mae croeso i ofalwyr ac aelodau'r teulu fynychu hefyd am gyngor a chefnogaeth, paned, sgwrs a chwmni da.

**Creaduriaid dof a gwyllt**
Daeth y gwaharddiad blynyddol ar gerdded cŵn ar y traeth i rym ar 1 Mai a bydd yn para tan 30 Medi. Mae dal yn bosib i fynd â chŵn am dro ar hyd y darn o'r traeth sy'n ymestyn o'r clwb golff i lawr at Ynys-las.

Mae rhaffau wedi'u gosod o gwmpas ardaloedd penodol o'r traeth gyferbyn â'r clwb golff ac Ynys-las i warchod y Cytiaid Torchog sy'n nythu yma bob blwyddyn. Dylid cadw cŵn ar dennyn wrth fynd heibio'r ardaloedd yma.

Cafwyd cyngor hefyd i gadw cŵn ar dennyn yn Ynys-las gan fod gwiberod i'w gweld yn y twyni yn ystod misoedd cynnes y gwanwyn a'r haf.

Cynhaliwyd y seremoni yn yr Academi ar Ebrill 23ain, ychydig ddyddiau wedi i Mared ymddangos ar raglen fore Sul Radio 3 gyda Sarah Walker. Darlledwyd rhaglen Sul y Pasg eleni yn fyw o Gapel Non, Sir Benfro ar fore bendigedig. Gallwch wrando ar y rhaglen gyfan ar-lein tan yr 20fed o Fai trwy'r ddolen BBC Radio 3 – Sunday Morning, Easter: A seasonal journey. Sarah Walker live from Pembrokeshire neu os hoffech wrando ar berfformiadau Mared yn unig ewch i 18:27, 1:29:42 a 2:39:28.

**CYNGERDD MOMA MACHYNLLETH**
Yn ogystal, mae dyddiad newydd wedi ei gadarnhau ar gyfer cyngerdd awr ginio Mared ym Machynlleth, a ohiriwyd o fis Chwefror oherwydd salwch. Y dyddiad newydd yw Dydd Sadwrn 14eg Mehefin 2025 am hanner dydd yng Nghapel y Tabernacl (MOMA) Machynlleth. Bydd tocynnau ar werth ar y drws yn unig a gellir talu gydag arian parod neu siec. £15 i oedolion, plant 18 ac iau am ddim.

I'R DYDDIADUR
Efallai yr hoffech nodi dyddiadau eraill y bydd Mared yn perfformio yng Nghymru a rhoi gwybod i'ch ffrindiau a pherthnasau yn y De:
3/7/2025 – Gŵyl Gerdd Llandaf – 1.00 yng








Nghapel Mair, Cadeirlan Llandaf.
£10 i gynnwys paned a chacen.
23/7/2025 – Gŵyl Gerdd Abergwaun – 7:30pm yng Nghapel Bethel, Abergwaun.
£20 i oedolion, 16 ac iau am ddim.

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 29 Ebrill yn Festri Horeb gyda'r Cadeirydd, Richard Owen yn y gadair. Roedd Delyth James, Shân James, Aled Jones, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol. Gan na allai'r Clerc fod yn bresennol roedd Eirian Reynolds wedi cytuno i gymryd y cofndion a diolchwyd iddo am hynny. Estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i Aled Jones a oedd yn bresennol fel cynghorydd am y tro cyntaf.

Materion yn codi: Tyllau yn y ffyrdd – roedd rhan o'r gwaith wedi'i gyflawni yn Ger-y-llan, ond nodwyd sawl man yn y gymuned lle'r oedd angen gwaith. Nodwyd yn arbennig y palmant ger Maes-y-felin a oedd mewn cyflwr drwg iawn, ac yn beryglus i rai oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn.

Cyllid: nodwyd fod rhan gyntaf yr archebiant ar gyfer 2025-26 wedi cyrraedd.

Adroddiad y Cynghorydd Sir: roedd Caryl Roberts wedi anfon adroddiad llawn am wahanol faterion i'r cyfarfod. Clwb Pêl Droed – roedd croeso cyffredinol i'r newydd fod y gwaith ar y cae chwarae pob-tywydd newydd wedi'i orffen wedi ymdrech fawr gan y Clwb i ddenu nawdd sylweddol o dros £200,000 o wahanol ffynonellau. Roedd aelodau'r Cyngor yn bryderus am un peth, sef y byddai raid talu am ddefnyddio'r cae hwn, yn wahanol i fel yr arferai fod gyda'r cwrt tenis. Penderfynwyd holi'r Clwb am y telerau, a phwysleisio barn y Cyngor y dylai Ysgol Penrhyn-coch gael defnyddio'r adnodd yn ddi-dâl. Stadau – rhoddwyd croeso mawr i'r newydd fod y gwaith tarmacio yn stad Y Ddôl Fach wedi'i orffen o'r diwedd, ac y byddai'n bosib i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r safle yn awr. Penderfynwyd holi pam nad oedd y palmant ger y ffordd wedi cael ei darmacio. Roedd gwaith sylweddol wedi'i wneud yn stad Nant Seilo hefyd. Gwnaethpwyd hwn gyda grant o un o gronfeydd Llywodraeth Cymru. Byddai'r Cyngor Sir yn dymuno gwneud cais ar gyfer gwaith ym Maes-yr-efail hefyd i wneud y stad yn barod i'w mabwysiadu, ond yn anffodus byddai angen arolwg trylwyr o gyflwr y bont yn y stad cyn y gellid penderfynu ar faint y gwaith. Un o amodau'r grantiau hyn oedd fod raid cyflawni'r gwaith i gyd o fewn un flwyddyn ariannol, ac ni fyddai hynny'n bosib yn achos Maes-yr-efail.

Gwanwyn Glân – rhoddwyd gwybod mai bore dydd Sadwrn, 24 Mai y byddai'r digwyddiad 'Gwanwyn Glân'ar gyfer tacluso'r pentref ac anogwyd pob un o aelodau'r Cyngor a oedd yn rhydd y diwrnod hwnnw i gefnogi'r digwyddiad.



## Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Tom Rhys Jones o'r Borth ac Emma Shaw o Surry ar eu priodas yn Llundain ar ddydd Gwener 4 Ebrill. Mae Tom yn gweithio yn y ddinas ac yn fab i Bryn a Liz Jones o Ffordd y Fulfran. Cynhaliwyd y seremoni yn Neuadd y Dre Hackney a chafwyd parti mawr yn Shoreditch i ddathlu'r achlysur ar y nos Sadwrn. Dymuniadau gorau i'r pâr priod newydd.



**Telynores brysur**
Llongyfarchiadau mawr i Mared, gynt o 5 Ffordd Clarach, Y Borth ar dderbyn anrhydedd arbennig gan yr Academi Gerdd Frenhinol. Yn dilyn proses enwebu a dethol, cyflwynir gwobr ARAM (Associate of the Royal Academy of Music) i gyn-fyfyrwyr “sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gerddoriaeth a drama”. [Llun: Tystysgrif ARAM]




**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo’r MRCPod


# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

## Catrin Pugh Jones

**Cystadleuaeth er cof am Lynda Evans**
Chwaraewyd cystadleuaeth Stableford oddi ar y tîs gwyrdd ar ddydd Llun y Pasg i gofio am Lynda, a fu’n gapten yn 2023. Roedd 22 o aelodau adran y menywod yn chwarae ar y dydd a phedair yn chwarae naw twll. Barbara Flanagan ddaeth i’r brig gyda sgôr arbennig o 41 o bwyntiau. Enillydd teilwng iawn oherwydd roedd tlws y gystadleuaeth wedi’i ennill yn wreiddiol pan oedd Barbara a Lynda yn cyd-chwarae ac wedi dod yn ail yng nghystadleuaeth genedlaethol y ‘Centenary Foursomes’.



**Canlyniadau 18 Twll**
1af – Barbara Flanagan – 41 pwynt
2ail – Helen Young – 37 pwynt
3ydd – Kay Thomas – 36 pwynt

**Cystadleuaeth 9 Twll**
1af – Ruth Morris – 19 pwynt
2ail – Anna Hubbard – 13 pwynt

**Anrhydeddu Aelod Arbennig**
Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Clwb yn falch iawn o gadarnhau bod John Pugh-Jones wedi cael cynnig Aelodaeth Er Anrhydedd am Oes i gydnabod ei wasanaeth hir.
Ers ymuno â›r Borth tua deugain mlynedd yn ôl, mae John wedi bod yn ddeilydd pob un o swyddi swyddogol y Clwb.
Yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf un, cafodd ei benodi’n Drysorydd Cynorthwyol. Daeth yn Drysorydd y flwyddyn ganlynol gan helpu i lywio’r



Clwb trwy gyfnod prysur iawn yn cynnwys dathliadau’r canmlwyddiant, cynlluniau ar gyfer adeilad newydd i’r clwb a mynd i’r afael â’r difrod trychinebus a wnaed i’r Cwrs ym 1990.

Fe’i penodwyd yn Gapten yn 1992, gan ddilyn hyn gyda sawl blwyddyn fel Cadeirydd ac yna Llywydd yn y flwyddyn 2000. Bu’n allweddol yn ystod y cyfnod hwn yn sefydlu cinio blynyddol cyn gapteniaid Y Borth a’r gystadleuaeth rhwng cyn gapteiniaid Y Borth ac Aberdyfi.
Er iddo ymddeol o golff yn ei 80au cynnar, parhau mae cysylltiad agos John â’r clwb. Mae’n gyson ei bresenoldeb mewn digwyddiadau, diwrnodau a chyfarfodydd arbennig gan gynnwys pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ac mae si ar led gallai’r clybiau ddod i’r amlwg unwaith eto nawr gan fod gan y clwb fygis trydan newydd sbon!

**Noson Blasu Gwin**
Cofiwch am y noson blasu gwin gyda Dylan o gwmni Dylanwad, Dolgellau, yn y clwb golf ar nos Sadwrn 17 Mai. Mynediad trwy docyn yn unig a nifer cyfyngedig ar gael ymlaen llaw drwy’r clwb neu’r capten Helen Lewis 07740 236901. £20 yw pris tocyn, sy’n cynnwys blasu chwe gwin gwahanol a phlatiad o gigoedd oer a chawsiau. Elw’r noson at elw’r capteiniaid sef Ymchwil Sepsis a Chlwb Bocsio Aberystwyth.

## Aber-ffrwd

**Tanau**
Mae y mis yma wedi bod yn amser pryderus i nifer o drigolion pen uchaf y Cwm. Oherwydd y sychder mi ddechreuodd tân enfawr a wnaeth fynd yn waeth o ddydd i ddydd. Diolch o galon i'r gwasanaeth tân am eu hymdrech diflino i helpu y trigolion.

**Urdd y Gymuned**
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol diwedd Ebrill pryd y daeth nifer o bobl ynghyd i Tŷ Llwyd. Etholwyd Jill Fathers yn gadeirydd gyda Nerys Daniel yn is-gadeirydd, Elen Howell yn ysgrifennydd a Lisa Williams yn drysorydd. Edrychwn ymlaen i ddechrau y tymor newydd ym mis Medi.

**Cartref newydd**
Dymuniadau gorau i Ceredig a Glenys Williams, Ty'n Wern yn eu cartref newydd yn Heol y Gogledd yn Aberystwyth.


Eglwys Efengylaidd Aberystwyth

CERDD, CÂN A CHLONC

Noson o adloniant gan aelodau a ffrindiau'r Eglwys

Neuadd Gymunedol Llanfarian
Nos Wener, 16 Mai 2025 am 7.00yh

Mynediad am ddim ond bydd croeso i gyfrannu at elusen HAHAV, Aberystwyth.
Darperir lluniaeth ysgafn dros baned.

CROESO MAWR i BAWB!



GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com



GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com




CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth y cadeirydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mai 2025.

Y cadeirydd yw: Gareth Davies, 6 Dôl yr Odyn, Parcyronnen, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SS
07855 906326
e-bost **Gareth.Davies@ceredigion.llyw.cymru**



WEST WALES ANTIQUES
CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com










COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580



Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
9.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau



GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

## Ysgol **Penrhyn-coch**

**Prosiect Cystadleuaeth MYGD (Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig)**

Ar y nawfed o Ebrill 2025, daeth Owain Dafydd, o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i feirniadu ein prosiect am Fwyngloddio. Roedden ni wedi dangos amrywiaeth o'n gwaith fel celf, adolygiadau o'r llyfr *Cwmwl Dros y Cwm* gan Gareth F Williams esboniadau am beth yw glo, gwaith rhifedd am lo ar draws y byd ac ein gwaith dwyn i gof o'n trip i Fwynglawdd Llywernog, i enwi rhai. Penderfynon ni i roi'r gwaith mewn ar gyfer cystadleuaeth Cywaith Eisteddfod yr Urdd eleni hefyd.

Yr ydym yn edrych mlaen i glywed os ydyn ni wedi llwyddo i fynd i'r rownd nesaf yn y gystadleuaeth MYGD. Fe wnaethon ni ateb llawer o gwestiynau diddorol. Roedd Owain yn person hapus a hwylus iawn, diolch iddo am ddod. Gan Gwenno ac Anest.


Henry yn arwain

**Eisteddfod Penrhyn**

Braf oedd cael gweld cynrychiolaeth o'r ysgol yn cefnogi'r Eisteddfod lleol. Roedd y plant yn awyddus i berfformio i ennill rhubannau ac wrth gwrs y wobr ariannol!

Llongyfarchiadau i'r dosbarthiadau Dysgu sylfaen am ennill gyda'r côr gyda Henry Richards yn arwain a parti llefaru dosbarthiadau CA2 yn dod i'r brig hefyd.

Talent cudd Mrs Lynwen Evans wrth ennill y gystadleuaeth brawddeg ac adolygiad ac i Lowri Emlyn, rhiant yr ysgol am ennill y gadair ar y Dydd Sadwrn.

**Cwis llyfrau**

Diolch i Francesca o Gyngor Llyfrau Cymru am gwrdd yn rhithiol gyda grŵp BookSlam ar ôl iddynt astudio llyfr *The Ghosts of Craig-Glas Castle*. Roedd y plant wedi darllen y nofel sawl gwaith ac wir wedi mwynhau'r llyfr. Felly roedd y plant wedi cynnal trafodaeth aeddfed ar themau a chymeriadau y nofel. Maent yn annog i bawb i ddarllen y nofel. Maent yn aros yn amyneddgar i glywed os ydynt wedi cael llwyddiant yn y rownd sirol.

**Helfa Basg**

Canolbwyntiodd dosbarth Drudwy ar ddysgu sut i wneud cliwiau ar lefel addas er mwyn hala trigolion y pentref ar daith i brif lefydd y pentref dros wyliau'r Pasg. Braf oedd derbyn lluniau gan y plant a teuluoedd oedd wedi llwyddo ddod o hyd i derfyn diwedd yr helfa.

**Gwaith Coed**

Diolch yn fawr i Alun Trawsnant am helpu ni i sefydlu ein hardal gwaith coed. Mae plant dosbarth Drudwy wrth eu boddau yno. Bydd plant yr ysgol gyfan yn cael cyfle yn y dyfodol.

**Llawr newydd**

Diolch yn fawr i Mid and West Housing, nosweithiau Bingo Kirsty a Cathy ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ariannu ein llawr chwarae meddal newydd sbon tu allan. Mae'r plant yn ddiolchgar iawn o le hyfryd i chwarae ar bwys iard yr ysgol.

## **Llwyncoch** (Y ddwy ysgol)

**Pêl droed yr Urdd**

Cymerodd y ysgol ran yng Nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar gyda thri thîm yn cystadlu. Llwyddodd bechgyn Blwyddyn 5/6 i gyrraedd y rownd derfynol, gan golli'n agos iawn 1-0. Cafodd merched Blwyddyn 5/6 grŵp anodd iawn ac yn anffodus, wnaethon nhw ddim llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol. Llwyddodd tîm cymysg Blwyddyn 3/4 hefyd i gyrraedd y rownd derfynol. Da iawn i bawb a gymerodd ran!

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
# *C. T. Evans*

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

Croeso i deuluoedd

6 teledu gyda Sky Sports

Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr

Bwrdd 'pool' a byrddau darts

Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS

HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992

# Ysgol **Pen-llwyn**



**Eisteddfod ddawns**
Llongyfarchiadau anferthol i'r criw dawnsio gwerin am ennill y ddawns i'r ysgolion hyd at 100 o blant-y dawns oedd Trefn y Drafforddd. Y criw oedd Ryan, Ifan, Megan, Ava, Talys, Erin a Jack ac maent yn gyffrous iawn i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd – cerwch amdani!

**Gweithdy SUSTRANS - posteri arafwch lawr**
Un diwrnod cyn y pasg daeth Alice o Sustrans mewn i'r ysgol i gynnal gweithdy lle fuon ni'n creu arwyddion sydd yn dweud 20mya ac 'Arafwch i lawr'. Bwriad hyn oedd creu arwyddion i'w rhoi o gwmpas y pentref a'r ysgol er mwyn annog pobl i arafu wrth yrru trwy'r pentref. Fe wnaeth rhai pobl greu arwydd 40mya i roi ar bwys Gelli Angharad. Crewyd 6 arwydd newydd i gyd a fydd yn cael eu gosod o gwmpas y pentref.

**Gweithdy gwych Gwaith coed**
Mae cyffro mawr wedi bod yn yr ysgol ers i ni agor ein gweithdy gwaith coed yn swyddogol! Cafwyd sied arbennig trwy garedigrwydd cwmni 'Walters' sydd wedi bod yn gweithio lawr yng Nghwmrheidol. Roedd rhaid trefnu'r sied ac roeddwn yn lwcus iawn am y cymorth gafwyd gyda Geraint Jones, Bont-goch-fe oedd wedi darparu'r holl ddarnau pren, gosod yr offer mewn lle diogel a threfnu nifer o bethau yn yr ardal allanol! Hoffwn hefyd ddiolch i Gronfa Eleri ac i deulu Cwmwythig am ariannu'r offer o fewn y gweithdy.



**Gornest Lyfrau**
Da iawn i grŵp o blant blwyddyn 3 a 4 sef Olivia, Iori, Branwen a Phoebe a grŵp o blant o flwyddyn 5 a 6 sef Ifan, Megan, Erin a Talys am gymryd rhan yn yr Ornest Lyfrau. Buodd y plant yn trafod llyfrau 'Cwm Cawdel' a 'Llanddafad' gyda Menna a Mared. Diolch i Cardi Iaith am drefnu - mi oedd yn brofiad gwych!





SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

# Ysgol Craig yr Wylfa

## YSGOL Y GYMUNED

### Taith Gerdded Noddedig

Ar ran holl gymuned yr ysgol, hoffwn ddiolch o galon i bawb am eich cefnogaeth wych yn ystod ein gweithgaredd cerdded noddedig diweddar. Gyda'r wasgfa ariannol ar bob ysgol ar hyn o bryd, mae'n siomedig ein bod yn gorfod troi at y gymuned am gymorth, ond bydd eich haelioni yn gwneud gwahaniaeth mawr i wella'r profiadau mae'r plant yn eu cael yn yr ysgol. Er enghraifft, byddwn yn gallu parhau gyda'n ddarpariaeth Ysgol y Goedwig sy'n gymaint o hwyl i'r plant yn ogystal â'r gwerth addysgiadol o ddysgu yn yr awyr agored mynd a meithrin sgiliau bywyd hanfodol.

Mae'r ysgol yn hynod falch o fod yn rhan o gymuned mor gefnogol ac ymroddedig ac mae'r ymdrech yma wedi dangos pa mor gryf yw'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, ac rydym yn ddiolchgar am eich cyfraniad parhaus. Diolch arbennig i Faes Carafannau Searivers am y cysgod, y diod a'r medalau gwych a diolch hefyd i Cambrian Coast am y dŵr oer!

### Eisteddfod yr Ysgol

Fel y soniwyd yn rhifyn mis Ebrill, cynhaliwyd Eisteddfod yn yr ysgol am y tro cyntaf ers cyn y Cyfnod Clo. Roedd hi'n bleser gweld y plant wedi dysgu eu geiriau a bod mor barod i berfformio o flaen cynulleidfa o dros 50 o bobl. Yn ogystal â'r canu a'r llefaru, roedd y perfformiadau yn Sgen Ti Dalent? yn ardderchog. Penderfynwyd hefyd i drefnu cystadlaethau mwy ymarferol a chreadigol fel peintio wy, coginio bisgedi, tynnu llun a ffotograffiaeth. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am bob cymorth wrth baratoi'r plant tuag at y diwrnod ac yn enwedig i Miss Hughes am drefnu'r digwyddiad. Diolch arbennig i'r beirniaid gwych hefyd a oedd wedi ymuno yn hwyl yr achlysur yn berffaith – diolch o galon Esther ac Elin am eich gwaith pwysig!

### Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Fel staff, rydym mor ddiolchgar i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieni am roi o'u hamser i gefnogi'r ysgol. Daeth criw da arall ynghyd yn ddiweddar i dacluso'r ardal allanol a pharatoi ar gyfer y tymor newydd. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus i'r staff ac i'r ysgol.

### Ffrwythau i Frecwast

Yn dilyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan y Cyngor Cymuned, rydym wedi dechrau cyflwyno ffrwythau yn ein Clwb Brecwast boreol. Diolch yn fawr am y nawdd yma ac mae'n braf dweud nad oedd dim un darn o ffrwyth ar ôl erbyn diwedd y Clwb!

### Enillydd teilwng

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor y carnifal yn gofyn i'r disgyblion ddylunio clawr ar gyfer y rhaglen blynyddol, ac fel y gwelwch o'r llun, mae'n un gwych eleni eto. Pob llwyddiant i'r pwyllgor wrth drefnu carnifal eleni.

### BorthFest / Seren y Môr

Bydd arddangosfeydd o waith y plant yn cael eu dangos fel rhan o Borthfest eleni eto a bydd arddangosfa arall yn Seren y Môr ym mis Mehefin. Cofiwch ddod i gefnogi'r plant.

## YSGOL ECO

### Prosiect Cawl

Mae'r prosiect yma wedi mynd o nerth i nerth yn ddiweddar gyda'r plant nawr yn dechrau plannu llysiau erbyn eu tynnu yn yr Hydref i fwyta yn y cawl. Diolch yn fawr i Kate Fenhalls am arwain y weithgaredd, mae'n amlwg bod y plant wrth eu boddau yn yr ardd.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod yn helpu i glirio ardal yr ardd yn ddiweddar ac i bawb sydd wedi cyfrannu adnoddau am ddim i ni i helpu gyda'r plannu.

## YSGOL IACH

### Gwersyll yr Urdd Glan-llyn / Pont yr Wylfa

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw cael ymweld ag un o wersylloedd yr Urdd. Mae Gwersyll yr Urdd Glan-llyn wedi'i leoli mewn amgylchedd naturiol hardd ar lan Llyn Tegid, yn enwedig ar ddiwrnodau braf iawn yn Ebrill! Mae'r gwersyll yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau awyr agored, megis canŵio, cwrs rhaffau ac adeiladu rafft sy'n helpu i ddatblygu sgiliau personol fel gwaith tîm a datblygu hunan-hyder. Eleni aethom gyda phlant eraill o ysgolion Ceredigion gan rannu bws gyda'n ffrindiau o Ysgol Tal-y-bont.

Cafodd pawb lawer o hwyl gan fwynhau'r gweithgareddau anturus, gwylio'r sioe adar a dawnsio yn y disgo wrth gwrs. Diolch yn fawr iawn i staff y Gwersyll am ofalu amdanom ac i Miss Griffiths am ei holl ofal o'r plant. Rwy'n siŵr y bydd gan bawb lawer o atgofion melys am yr ymweliad. Dyma ymateb rai o'r plant –

Leighton – roeddwn i wedi mwynhau'r canwio achos bod y gêmau'n ddoniol.

Jacob – roeddwn i hefyd wedi hoffi canwio achos dwi'n hoffi dŵr.

Ellie – y naid uchel wnes i fwynhau er fy mod yn ofnus i ddechrau.

Lottie a Mira – fe wnaethon ni fwynhau'r rhwyfo achos ei fod yn hwyl.

Odin – roeddwn i wedi mwynhau'r wal ddringo achos bod e'n hwyl bod gyda ffrindiau.









# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod Ysgol**
Cynhaliwyd ein Eisteddfod ysgol eleni ar y 10fed o Ebrill. Cafwyd cystadlaethau canu, llefaru a chanu offeryn, ac yn ystod yr wythnosau yn arwain at y dydd fuodd plant y meithrin i flwyddyn 5 yn brysur yn cwblhau tasgau celf o fewn eu dosbarthiadau. Mi fuodd plant blwyddyn 6 yn ysgrifennu cerddi ar gyfer cystadleuaeth 'y Gadair. 'Ein Byd Gwyrdd' oedd y testun eleni; a gwaith anodd iawn oedd gan y beirniad sef Anwen Pierce, gan fod ansawdd y cerddi yn arbennig o dda; ond, ar ganiad y corn, Tirion Presecane a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Tirion. Da iawn hefyd i Leisi Myrddin am ddod yn ail ac i Molly Suggett am ddod yn drydydd. Dyma'r gerdd fuddugol

***Ein byd gwyrdd***
*Awyr brwnt yn drewi,*
*Dŵr yr afon llawn sbwriel,*
*Tân y fforest yn symud yn chwim ,*
*Anifeiliaid yn diflannu pob dydd,*
*Natur yn dioddef,*
*Pobol barus yn prynu gormod o fwyd,*
*Dim diogon o pobol yn ailgylchu.*

*Anadlu aer glân pur,*
*Dŵr yr afon yn llifo'n igam-ogam a sgleiniog,*
*Môr hallt am filltiroedd,*
*Coed cawraidd yn y fforestydd,*
*Anifeiliaid yn cyd-fyw,*
*Natur gwyrdd yn ymestyn dros y byd,*
*Siopa'm fwyd yn ofalus,*
*Mwy o bobl yn ailgylchu.*

*.....Dyma ein byd gwyrdd*
*Tirion*

Ar ddiwedd diwrnod llawn cyffro, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Rheidol a gariodd y dydd yn y pen draw; Leri yn ail ac Ystwyth yn drydydd. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb sef Mrs Fal Jenkins a Mrs Non Evans.

**Gwaith da!**
Diolch o galon i aelodau pwyllgor rhieni ac athrawon yr ysgol fu'n datblygu a thwtio ardal allanol yr uned Feithrin yn ddiweddar. Bydd y plant yn siŵr o werthfawrogi'r newidiadau wrth iddynt chwarae a dysgu yn ystod tymor yr haf.

**Croeso**
Croesawyd rhagor o blant i'r uned feithrin yn dilyn gwyliau'r Pasg. Maent wedi setlo'n wych ac yn brysur yn gwneud ffrindiau newydd.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*





Rheidol, Leri ac Ystwyth yn cefnogi



Croeso y Meithrin



Molly, Tirion a Leisi gyda'r gadair.



Twtio yr ardal allanol

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb wnaeth liwio llun yr wyau Pasg. Am luniau gwych! Wnaethoch chi ddod o hyd i'r gwningen a'r cyw? Dyma'r enwau: Elsi Wynn, Capel Bangor; Anni Jones, Llandre; Steffan Jones, Caerffili; Alys, Penrhiw, Bow Street; Ffion ac Ernest Pugh, Y Borth.


Dy enw di, Ernest, ddaeth allan o het Mr Urdd – hwrê a llongyfarchiadau mawr!



Ernest

Mae wythnos Eisteddfod yr Urdd bron yma – Eisteddfod Dur a Môr. Dwi'n siŵr fod sawl un o ardal Y Tincer yn mynd i Barc Margam. Falle eich bod chi'n cystadlu – yn dawnsio, canu offeryn, coginio, sgwennu stori, tynnu ffotograff, canu ... pob lwc i bawb. A bydd nifer ohonoch chi'n mynd i'r maes er mwyn cael blas ar yr ŵyl. Joiwch!

Bydd enillydd gwobr go arbennig yn cael ei ddatgelu yn yr Eisteddfod – Gwobr Tir na n-Og ... a llyfr, nid person, sy'n ennill! Ydech chi wedi darllen un ohonyn nhw? Ni a Nhw (gan Sioned Wyn Roberts), Arwana Swtan a'r Sgodyn Od (gan Angie a Dyfan Roberts), a Llanddafad (gan Gareth Evans-Jones). Tybed pa un fydd yn ennill? Mae gen i ffefryn ... ond shhh ... dwi ddim am ddweud pa un!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

**Cofiwch fod gwobr am yr enw cynta sy'n dod o het y Tincer bob mis, felly ewch ati i liwio! Y tro hwn, mae Mr Urdd ar ras i gyrraedd pafiliwn Parc Margam! Anfonwch eich lluniau i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP (anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 10 Mehefin. Ta ta tan toc!**

ISSN 0963-925X

*Rhif 479 | Mai 2025*